sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth

## Cynigion ar gyfer newidiadau i'r arweiniad a'r gofynion


**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 30 Tachwedd 2022

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 6 Chwefror 2023

# 1. Trosolwg

1.1 Ym mis Mehefin cyhoeddwyd ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC, *Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC* ('Adolygiad mis Mehefin’). Edrychodd yr adolygiad hwn ar sut y dylai rheoleiddio newid er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben yn yr amgylchedd sy'n symud yn gyflym y mae'r BBC yn gweithredu ynddo.

1.2 Mae angen i'r BBC addasu ei gwasanaethau er mwyn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd a pharhau'n berthnasol iddynt, fel y gall barhau i gyflawni ei Chenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Ar yr un pryd, mae'n bwysig diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ym marchnad cyfryngau'r DU fel bod cynulleidfaoedd yn parhau i fwynhau cynnwys o ansawdd uchel gan amrywiaeth o ddarparwyr. Mae'n bwysig bod rheoleiddio cystadleuaeth yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i'r BBC wneud y newidiadau angenrheidiol i'w wasanaethau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd a diogelu cystadleuaeth.

1.3 Yn adolygiad mis Mehefin fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth y DU wneud rhai newidiadau i'r Cytundeb i roi mwy o hyblygrwydd i Ofcom benderfynu sut a phryd i gynnal asesiadau cystadleuaeth. Dywedom hefyd y byddem yn cyhoeddi ymgynghoriad ar wahân ar newidiadau arfaethedig i reoleiddio cystadleuaeth o dan y Siarter a'r Cytundeb presennol, ac y byddem yn amlinellu ein barn ar gystadleuaeth yn y prif sectorau lle mae'r BBC yn gweithredu.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu newidiadau arfaethedig i'n harweiniad ar sut yr asesir effaith y BBC ar gystadleuaeth. Mae ein cynigion yn ceisio sicrhau bod ein prosesau presennol yn effeithlon ac yn cael eu defnyddio'n hyblyg, ac annog ymgysylltu cadarnhaol rhwng y BBC a'i chystadleuwyr ynghylch newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC. Rydym hefyd yn amlinellu'r newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud i'w phrosesau i ymdrin â'r pryderon a godwyd yn ein hadolygiad o BBC Studios, ac rydym yn cynnig rhai newidiadau bach i'r gofynion a'r arweiniad Masnachu a Gwahanu, er mwyn sicrhau eu bod yn glir.

1.5 At hynny, rydym yn rhoi ein barn am safle presennol y BBC o fewn y sectorau clyweled a sain. Ein nod yw darparu mwy o eglurder i'r BBC ac i randdeiliaid eraill ynghylch sut rydym yn debygol o fynd ati i ystyried effaith y BBC ar gystadleuaeth.

### Beth rydym yn ymgynghori arno - yn gryno

Rydym yn cynnig y newidiadau canlynol i'n harweiniad ar sut mae effaith cystadleuaeth y BBC yn cael ei hasesu:

- **Pennu gofyniad penodol i'r BBC roi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau i wasanaethau cyhoeddus sy'n debygol o fod yn destun asesiad o ateroldeb gan y BBC,** i'w hannog i fod yn fwy tryloyw gyda rhanddeiliaid ynghylch ei chynlluniau ac yn fwy cyson ynghylch sut mae'n eu gwneud yn gyhoeddus.
- **Creu arweiniad newydd sy'n esbonio sut y dylai ymagwedd resymol a chymesur at ymgysylltu yn ystod y broses ateroldeb edrych,** er mwyn cefnogi deialog fwy agored rhwng rhanddeiliaid a'r BBC am newidiadau i wasanaethau'r BBC, ac ar yr un pryd, sicrhau bod y broses ymgysylltu gynnar yn parhau'n gymesur.
- **Darparu mwy o arweiniad ynglŷn â'r wybodaeth y dylai'r BBC ei rhoi i randdeiliaid pan fydd yn ymgynghori fel rhan o brawf budd y cyhoedd**, er mwyn helpu i sicrhau bod y BBC yn darparu digon o wybodaeth i alluogi rhanddeiliaid i ymateb yn bwrpasol.
- **Darparu mwy o fanylder yn yr arweiniad ynghylch rôl Ofcom wrth asesu materoldeb,** fel bod y broses yn gliriach i randdeiliaid.
- **Newid ein harweiniad fel bod mwy o hyblygrwydd i Ofcom wrth benderfynu a oes angen ymgynghori ar ateroldeb yn y cam asesu cychwynnol**, gan ddileu dyblygu yn ein proses asesu cystadleuaeth y BBC (BCA) lle bynnag y bo modd.
- **Darparu arweiniad pellach ynghylch yr hyn yr ydym yn disgwyl ei weld yn asesiad gwerth cyhoeddus y BBC**, yn seiliedig ar ein profiad o adolygu asesiadau gwerth cyhoeddus y BBC. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o arweiniad i'r BBC a rhanddeiliaid ynghylch ble rydym yn meddwl bod potensial i'r BBC gynhyrchu gwerth cyhoeddus sylweddol drwy fynd i'r afael â'r heriau y mae'n eu hwynebu.

**Rydym hefyd yn cynnig rhai newidiadau i'r gofynion a'r arweiniad Masnachu a Gwahanu.** Mae hyn er mwyn darparu mwy o eglurder ynghylch y gweithgareddau y mae ein rheolau'n berthnasol iddynt ac i sicrhau bod y BBC yn ymwreiddio'r newidiadau y mae'n eu gwneud wrth ymateb i'n hadolygiad.

## Ein barn ar y farchnad

1.6 Yn y ddogfen hon rydym hefyd wedi amlinellu ein barn ar safle presennol y BBC o fewn y sectorau clyweled a sain.[1] Nid yw hyn yn fwy na man cychwyn ar gyfer unrhyw asesiad cystadleuaeth yn y dyfodol. Bydd dal angen i'r BBC ac Ofcom ystyried effaith y newidiadau y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud ar gystadleuaeth ar sail yr achos unigol ac ystyried sut fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gystadleuwyr.

1.7 Yng nghyd-destun y farchnad bresennol, ein barn yw bod y risg o niwed cystadleuol yn sgil newidiadau sy'n benodol i BBC Sounds neu BBC iPlayer yn debygol o fod yn isel. Mae hyn oherwydd bod yr effaith yn debygol o gael ei ledaenu ar draws ystod o gystadleuwyr, gan gynnwys y rhai sydd â graddfa fyd-eang, ac mae amodau cystadleuol yn debygol o'i gwneud

[1] Er nad ydym yn ystyried effaith cystadleuaeth bosib gweithgareddau ar-lein y BBC y tu hwnt i'r sectorau clyweled a sain yn y ddogfen hon, mae'n bwysig nodi bod gwasanaethau eraill fel gwefan/ap Newyddion y BBC hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflwyno'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus.

hi'n anodd i'r BBC wneud enillion mawr ar draul cystadleuwyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau lle mae'r risg yn uwch, er enghraifft os disgwylir i effaith y newid gael ei ganolbwyntio ar ddarparw(y)r masnachol domestig penodol. Mewn achos o'r fath, byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried hyn fel rhan o'i hasesiad.

1.8 Mewn cyferbyniad, rydym o'r farn y gallai newid i wasanaethau teledu a radio'r BBC gael mwy o effaith ar gystadleuwyr domestig, er yr ydym yn disgwyl i newidiadau yn y dyfodol fod â mwy o ffocws ar ddigidol, o ystyried strategaeth y BBC.